

Math o Adroddiad	Cofnodion		
Cyfarfod Cyfarfod	Partneriaeth Gwledig Môn / Arloesi Môn		
Lle Lleoliad	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Dyddiad	14/02/19	Amser Amser	1.00 pm

**Yn bresennol:**

Cynrychiolwyr y Sector Menter:	
Nigel Peacock (NP)	
Mari Faulkener (MF)	
Alwyn Williams (AW)	
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol / Cymunedol	
Peter Davies OBE (PD)	Menter Gymdeithasol Llangefni
Robin Grove-White (RGW)	
Neville Evans (NE)	
Adrian Roberts (AR)	Ynni Hafren Gwy
Sian Purcell (SP)	Medrwn Môn
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus	
Martin Jardine (MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Molly Lovatt (ML)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dewi Lloyd (DL)	Datblygu Economaidd CSYM
Staff Menter Môn	
Dafydd Gruffydd (DG)	
Bethan Fraser-Williams (BFW)	
Jackie Lewis (JL)	
Jane Davies (JD)	
Sioned Morgan Thomas (SMT)	
Staff Cyngor Ynys Môn	
Eifion Jones (EJ)	
Eraill yn bresennol	
	Cyfieithydd



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*



Endaf Griffiths	Wavehill
-----------------	----------

Pwynt	Manylion	Gweithredu
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb, yn enwedig aelodau newydd, i'r cyfarfod	
2	<b><u>Ymddiheuriadau</u></b> Jean Baker Dr Dylan Evans Amie Field Mark Gahan Marian Gwyn Bryn Jones Sue Roberts	
3	<b><u>Datganiad o Ddiddordeb</u></b> Peter Davies - Contractwr SiniMôn Dewi Lloyd - Wedi'i enwi fel cyswllt ar gyfer Defnyddwyr Porthladd Caergybi Sian - Ymwneud â Llais Ni (nodwyd yn Martin Jardine - Cyflogai Grŵp Llandrillo Menai, a enwyd yn y cais IoT a Dronau, ond nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw un o'r prosiectau.	
4	<b><u>Cofnodion y cyfarfod 10/10/18</u></b> Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod ar 10/10/18	
5	<b><u>Materion yn Codi.</u></b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofyn i Wavehill hwyluso adolygiad SDLI</li> <li>Anfon sylwadau RCDF at LIC</li> <li>Ni ddosbarthwyd adroddiad gan na fu EOI canolfan hamdden Amlwch yn llwyddiannus.</li> <li>Mae CSYM yn dymuno bod yn rhydd o blastig - AHNE yn arwain ar hyn.</li> <li>Bydd cynhadledd ar blastigau ym mis Mawrth - MJ i rannu manylion</li> </ul>	<b>MJ i rannu manylion cynhadledd ar blastigau</b>
6	<b><u>Adroddiad Cynnydd</u></b> Tynnodd EJ sylw at gamgymeriad yn yr adroddiad - mae Mari yn gweithio i Bartneriaeth Adfywio Llangefni, nid Menter Gymdeithasol Llangefni.	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
*Charitable Trust*



7	<p><b><u>Gwerthusiad Arloesi Môn</u></b></p> <p>Cyflwynodd EG y canfyddiadau interim o'r gwerthusiad. Roedd ei ganfyddiadau yn gadarnhaol ar y cyfan ond rhoddwyd argymhellion i'w hystyried hefyd e.e.  GGLI i adolygu'r SDLI  Y broses o gymeradwyo prosiectau newydd i'w hatal  Adolygu aelodaeth y GGLI  Cyfathrebu - angen rhoi gwybod i'r cyhoedd a dylanwadwyr am y GGLI a'r prosiectau  Mae gan y Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig gronfa ddata o brosiectau yn <a href="https://enrd.ec.europa.eu/projects-practice_en">https://enrd.ec.europa.eu/projects-practice_en</a></p> <p>Bydd copi o gyflwyniad Wavehill, gan gynnwys pob un o'r 16 argymhelliad, yn cael ei ddsbarthu i'r holl GGLI ac aelodau'r staff.</p> <p>Cytunwyd y byddai sesiwn yn cael ei threfnu i adolygu'r SDLI gan gynnwys aelodau GGLI a Staff ond gallai hefyd fod yn agored i randdeiliaid allweddol eraill. Byddai'r sesiwn hefyd yn gyfle i staff ac aelodau ystyried a gweithredu ar argymhellion ychwanegol a awgrymwyd.</p>	<p>EJ i ddsbarthu'r cyflwyniad.</p> <p>Staff i ddsbarthu manylion</p>
8	<p><b><u>Adborth ar Brosiectau</u></b></p> <p>Cafwyd cyflwyniadau ar SiniMôn, grŵp Cynhyrchwyr Bwyd Gogledd Orllewin Cymru a Gofal Dydd Gwell. Gellir dod o hyd i'r ffilmau hyn yn:</p> <p>SiniMôn -  <a href="https://wettransfer.com/downloads/ae500b9ceb63847b2bc31843d1d899ca20190212005336/8102055e6362460048697d99ff87f6c520190212005336/4beef9">https://wettransfer.com/downloads/ae500b9ceb63847b2bc31843d1d899ca20190212005336/8102055e6362460048697d99ff87f6c520190212005336/4beef9</a></p> <p>Grŵp Cynhyrchwyr Bwyd Gogledd Cymru -  <a href="https://www.dropbox.com/s/cei93auwl06mxvo/TMF-Presentation-2019-Final.mp4?dl=0">https://www.dropbox.com/s/cei93auwl06mxvo/TMF-Presentation-2019-Final.mp4?dl=0</a></p> <p>Gofal Dydd Gwell -  <a href="https://www.facebook.com/watch/?v=1993518834078095">https://www.facebook.com/watch/?v=1993518834078095</a></p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
*Charitable Trust*



9	<p><b><u>Diweddariad a dadneilltuo cyllid</u></b></p> <p>Adroddodd SMT ar y sefyllfa ariannol gyfredol o ran y gyllideb, y dyraniad a'r gwariant hyd yma o ran y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithredu'r prosiect (gan gynnwys prosiect cydweithredu).</p> <p>Nodwyd bod y rhaglen hyd yma wedi cael ei phroffilio hyd at ddiwedd 2020 ond gobeithir ymestyn hyd at Fehefin 2022, neu ymhellach os yn bosibl.</p> <p><b>Rhoddwyd cymeradwyaeth i ddadneilltuo £78,557.89 o wariant prosiect</b></p> <p>Eglurwyd bod yr ymrwymadau'n gymysgedd o brosiectau nad ydynt yn mynd ymlaen h.y. Arolygydd Amgueddfa, a phrosiectau sydd wedi gorffen ac y gellir eu cyflawni islaw'r gyllideb wreiddiol a ddyrannwyd.</p>	
10	<p><b><u>Diwygiadau i'r Prosiect</u></b></p> <p><u>Gofal Dydd Gwell</u> - Esboniodd BFW fod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus, yn dilyn dechrau araf. Roedd wedi treialu gwahanol ddulliau, ac roedd rhai ohonynt wedi gweithio'n well nag eraill. Roedd wedi derbyn llawer o sylw a'r bwriad oedd y byddai'r Cyngor yn ceisio cyllid parhad o'r Gronfa ICF pan fyddai hyn ar gael ymhen 6-9 mis. Yn unol â hynny, ceisiwyd £10,000 ychwanegol o gyllid i gadw'r elfennau llwyddiannus yn mynd tan hynny.</p> <p>Tynnodd SP sylw at y cyfleoedd i ddefnyddio gwirfoddolwyr trwy Linc Cymunedol Môn yn lle'r bws. Pwysleisiodd eraill yr angen i ystyried strategaethau ymadael eraill e.e. gwasanaethau/ taliadau ychwanegol pe na bai ICF ar gael. Roedd teimlad bod y treial wedi profi manteision y gwasanaeth, ond dadleuwyd y byddai rhoi'r gorau i'r gwasanaeth yn ei gwneud yn anoddach ei atgyfodi yn ddiweddarach.</p> <p><b>Cymeradwywyd £10,000 ychwanegol ar gyfer y prosiect, gan gymryd y cyfanswm a gymeradwywyd i £23,864</b></p>	
11	<p><b><u>Cynigion Prosiect</u></b></p> <p><u>IOT (Internet of Things – Rhyngrwyd Pethau)</u> Eglurodd yr SMT fod yr IOT yn ffordd o drosglwyddo symiau bach o ddata ar draws Rhwydwaith Ardal Eang Ystod Hir (LoRaWan) rhwng synwryddion a gweinydd canolog. Dangoswyd y fideo canlynol</p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
*Charitable Trust*



<https://www.bing.com/videos/search?q=what+is+internet+of+things&&view=detail&mid=FC489FD55C60390D6271FC489FD55C60390D6271&&FORM=VRDGAR>

Nod y prosiect yw codi ymwybyddiaeth o'r dechnoleg ac ymchwilio i geisiadau mewn nifer o feysydd e.e. Twristiaeth; Amaethyddiaeth; Cymunedau; a Gofal Cymdeithasol.

Mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch y data ac a oedd y system yn agored i'w hacio. Roedd natur y data yn annhebygol o wneud hyn, ond gallai'r cynllun peilot ymdrin â'r mater hwn. Roedd rhai yn pryderu ei bod yn enghraifft bellach o dechnoleg yn disodli swyddi, ond gallai eraill weld y manteision posibl.

#### **Cymeradwywyd y prosiect ar £18,000 gan gynnwys TAW**

Dronau Amlinellodd SMT y prosiect a fyddai'n cynnwys pobl ifanc o'r ysgolion a'r coleg lleol mewn adeiladu a gweithredu dronau, ynghyd ag agweddau cyfreithiol. Byddai hyn yn ategu elfennau STEM y Cwricwlwm. Tynnwyd sylw at gymorth gweithredwr o'r radd flaenaf wrth gynllunio'r rhaglen. Roedd rhai yn anghyfforddus â defnyddio dronau o ystyried adroddiadau diweddar ac awgrymwyd bod eu defnydd moesegol yn cael ei gynnwys yn y gweithdai. Awgrymwyd hefyd bod eu defnyddiau artistig ac amgylcheddol yn cael eu cynnwys hefyd.

#### **Cymeradwywyd y prosiect ar £18,000 gan gynnwys TAW**

Newyddiaduraeth Wledig Atgoffodd JL y grŵp fod y prosiect hwn wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod blaenorol ond bod angen ymgysylltu pellach. Roedd bellach yn cael ei ailgyflwyno mewn fformat mwy cryno. Byddai'n ategu SiniMôn a TeliMôn. Derbyniwyd y byddai Papurau Bro yn cadw eu hunaniaeth cyfrwng Cymraeg. Byddai'n canolbwyntio ar grŵp o bobl ifanc a fyddai'n gweithio gyda'r papurau bro ac yn cymryd rhai o'u straeon i'w trosi'n ffilmiau byr, i'w sgrinio fel rhan o berfformiadau SiniMôn neu eu darlledu ar TeliMôn. Byddai'r bobl ifanc yn dysgu sut i gyflwyno, ysgrifennu, ffilmio, marchnata a brandio yn ogystal â dysgu am enllib. Byddent hwythau hefyd yn cyfrannu erthyglau i'r papurau bro. Roedd y BBC eisoes wedi dangos diddordeb mewn ymdrin â'r stori.

#### **Cymeradwywyd y prosiect ar £14,000 gan gynnwys TAW**



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
*Charitable Trust*



12	<p><b><u>Cymunedau Creadigol</u></b></p> <p><u>Grŵp Defnyddwyr Porthladd Caergybi</u> Cyflwynodd JD y cynnig gyda'r nod o ddod â chymuned y porthladd at ei gilydd a chreu cysylltiadau gydag, e.e., y dref. Roedd teimlad y gallai hyn ynghyd â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Llangefni gael ei ailadrodd mewn ardaloedd eraill ac y gallai fod yn sail i declyn cludadwy. Cyfeiriodd SP at becyn cymorth a baratowyd ar gyfer unigolion ac awgrymodd rannu gwersi a chydweithredu.</p> <p><b>Cymeradwywyd y prosiect ar £9,900 gan gynnwys TAW</b></p>	<p><b>SP i rannu manylion pecyn cymorth gyda JD</b></p>
8	<p><b><u>Unrhyw Fusnes Arall</u></b></p> <p><u>Lithwania / Awstria</u> Adroddodd JL ynglŷn ag ymweliadau diddorol â Lithwania ac Awstria i ymchwilio i brosiectau cydweithredu. Cyfeiriodd at glystyrau o fusnesau mewn ardaloedd anghysbell o Lithwania a sefydlwyd gan beirianwyr a ffisegwyr niwclear, a bod grŵp ar fin ymweld ag Ynys Môn ym mis Mai i gwrdd â'r AHNE i ddysgu am y prosiect Awyr Dywyll.</p> <p>Yn Awstria roeddent wedi dod ar draws problemau allfudo, llai o eira a llai o dwristiaid ond gwelsant sut roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i wrthweithio hyn gyda thai fforddiadwy lleol. Gofynnwyd i JL ddsbarthu uchafbwyntiau bwled o'r ymweliadau.</p> <p><u>Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn</u> Adroddodd DL fod Cynllun Adfywio Economaidd ar gyfer Gogledd Ynys Môn yn cael ei baratoi yn dilyn y cyhoeddiadau diweddar am Wylfa Newydd a Rehau. Byddai'n cael ei ddsbarthu i'r GGLI ar gyfer ymgynghoriad a gallai fod yn arf gwerthfawr wrth edrych ar y SDLI a blaenoriaethu camau gweithredu.</p>	<p><b>JL i ddsbarthu uchafbwyntiau bwled.</b></p> <p><b>DL i ddsbarthu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn.</b></p>
9	<p><b><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></b></p> <p>09/05/19</p>	
	<p><b>Gorffen</b></p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*





Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*

